

VOLUNTARY
ACTION
GWEITHREDU
GWIRFODDOL

VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL

Adroddiad Blynyddol 2015-16



Datganiad Cenhadaeth

Cefnogi, cynrychioli a chynorthwyo datblygiad sefydliadau Trydydd Sector o safon a gwirfoddoli ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Datganiad O Weledigaeth

- Bod yn ganolfan ragoriaeth ym Merthyr Tudful o ran darpariaeth gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion Trydydd Sector a gwirfoddoli.
- Creu cymdeithas iach a sifil trwy helpu i ddatblygu sefydliadau i ddiwallu anghenion, gan uchafu cyfleoedd gwirfoddoli a rhannu ein cenhadaeth â'r holl randdeiliaid allanol.



**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**

Canolfan Gweithredu
Gwirfoddol
89-90 Pontmorlais,
Stryd Fawr, Merthyr Tudful
CF47 8UH

Ffôn: 01685 353900
Ffacs: 01685 353909
enquiries@vamt.net



@VAMTtweets
@VAMTvolunteer
@merthycarers
@merthyrMAGNET
@onevoicemt
@c1stssouth



www.vamt.net



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rhagymadrodd gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Mae'n bleser gennym gyflwyno pedwerydd ar bymthegfed Adroddiad Blynyddol Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Eleni, gwelwyd y cwmp mwyaf dramatig yn ein hanes wrth i ni brofi toriad sylweddol yn incwm rhai o'n gwasanaethau craidd. Am y tro cyntaf ers 1998, ni dderbyniodd GGMT unrhyw gymorth ariannol Ewropeaidd a phrofodd hyn, ar y cyd â thoriad sylweddol yng nghyllid Llywodraeth Cymru i fod yn broblematig. Yn anffodus, canlyniad hyn oedd i ni orfod lleihau niferoedd y staff trwy ddileu swyddi a thocio oriau gwaith ac roedd yn anochel felly i ni orfod lleihau'n gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae GGMT yn parhau i gyflawni. Rydym wrth ein bodd fod ein partneriaid sy'n gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithaol a Lles wedi penderfynu i barhau i flaenoriaethu ariannu y Cyd-lynwyr Cyumunedol a'r Gronfa Gymunedol er gwaetha'r ffaith i Gronfa Ofal Ganolraddol Cwm Taf gael ei lleihau. Yn ychwanegol i hyn, mae prosiect Cymunedau yn Gyntaf, Clwstwr y De yn parhau i gael canlyniadau ac mae'r prosiect MAGNET wedi arddangos llwyddiannau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn.

Mae GGMT wedi cyd-weithio ymhellach gyda'n cymydog, Interlink RhCT, ac wedi penderfynu ar gyfundrefn weithio rhanbarthol a gafodd ei gweithredu yn ystod y flwyddyn. Cafwyd yn bennaf berthynas gydweithiol agos wrth weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog rydym yn ymroddedig i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad effeithiol a'n bwriad yw galluogi trydydd sector sy'n gryf a dylanwadol gan wella gwirfoddoli yn Merthyr Tudful. Yr unig fodd y gallwn gyflawni hyn yw trwy ddibynnu ar ein tîm ymroddedig o ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. Diolchwn iddynt am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.



Yn olaf, mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i brif gyllidwyr GGMT am eu cefnogaeth parhaol; yn enwedig felly Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chronfa Fawr y Loteri. Diolch, yn ogystal i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n gweinyddu nifer o'r cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyllido ac y mae GGMT yn derbyn budd ohonynt.

Brian Lewis
Cadeirydd

Ian Davy
Prif Swyddog

Ffeithiau a Ffigurau

Nifer y gwirfoddolwyr a leolwyd **137**

Nifer sesiynau ymwelwyr y wefan **34,487**

Cyfanswm yr ymholiadau a gafwyd ac yr ymatebwyd iddynt **2,951**



Nifer y cylchgronau/ cylchlythyron a gyhoeddwyd **4**

Nifer y bobl gafodd pob rhifyn **406**

Nifer yr ymholiadau gan ymddiriedolwyr a gafwyd ac yr ymatebwyd iddynt **38**

Nifer yr ymholiadau ynglŷn â chyngor am arian a gafwyd ac yr ymatebwyd iddynt **57**

Faint o arian a gafwyd gan grwpiau yr hysbyswyd amdanynt yn y cyfnod adrodd **£122,742**

Nifer y cyrsiau hyfforddi a ddarparwyd **29**

Nifer y cyfranogion **287**

Nifer y sefydliadau/mentrau cymdeithasol newydd neu wasanaethau newydd a ddatblygwyd **15**



Faint o arian a roddwyd trwy gynlluniau grant/benthg **£245,256**

Nifer y grwpiau cynllunio strategol/ gweithgorau oedd yn cynnwys aelodaeth o'r trydydd sector **72**



Nifer y fforymau trydydd sector neu rwydweithiau a gefnogwyd **7**

Cyfanswm yr aelodaeth **263**

Rhai uchafbwyntiau

- Cafodd 215 o **wirfoddolwyr** posib eu cyfweld yn y Ganolfan Wirfoddoli ac mae 137 ohonynt wedi cael lle ac yn gwirfoddoli'n gyson.
- Yn mis Awst, cynhaliwyd digwyddiad **'Dathlu Gwirfoddolwyr'** yn y Red House yn Merthyr Tudful. Roedd y digwyddiad yn ddathliad tystysgrifol i wirfoddolwyr a mynychodd 18 o grwpiau y digwyddiad gyda chyfanswm o 120 o unigolion. Cyflwynwyd y tystysgrifau gan Faer Merthyr Tudful, Gerald Jones AS ac aelodau o staff uwch o Fwrdd Iechyd Cwm Taf a heddlu De Cymru. Ardstywyd dystysgrifau a gafodd eu cynllunio'n arbennig gan Huw Lewis AC.





- Yng Nghyfarfod Blynyddol GGMT yn mis Tachwedd, cyflwynwyd **Gwobr Nicola Park i Terry Collins** o Glwb PHAB Merthyr Tudful am ei "gyfraniad arbennig i waith gwirfoddol yn Merthyr Tudful." Cyflwynwyd y Wobr gan Gerald Jones AS.
- Yn dilyn diwrnod agored yn y **Ganolfan Waith**, cytunwud y gallai Swyddog Gwirfoddol gael ei leoli yn y Ganolfan Waith. Dechreuwyd ar hyn yn Ionawr 2016 ac yn ystod y tri mis cyntaf, cafodd 30 o wirfoddolwyr posib eu cyfweled a lleolwyd 13 ohonynt.

Mae prosiect **cydweithiol bwyd Cymunedau yn Gyntaf**, Clwstwr y De yn galluogi cwsmeriaid i brynu ffrwythau, salad a llysiau ffres yn wythnosol am bris cyfanwerthwyr. Cafodd saith o wirfoddolwyr eu recriwtio ar gyfer y dair ganolfan fwyd gydweithredol yng Nghlwb Bechgyn a Merched Treharris, Canolfan Gymunedol Fir Tree a Chapel y Drindod Ynysowen.

- Gyda chefnogaeth gan GGMT, llwyddodd New Pathways, yn dilyn asesiad i sicrhau ei **Safon Ansawdd mewn Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**.
- Derbyniodd 29 o sefydliadau gymorth **ymarfer da** wrth wirfoddoli

- Lawnsiwyd gwefan Findagroup yng nghyfarfod blynyddol GGMT yn mis Tachwedd (<http://findagroup.cymru/>). Mae'r wefan yn caniatâu i drigolion chwilio am grwpiau lleol, gweithgareddau, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector yn RhCT a Merthyr Tudful.



Darparwyd **Cefnogaeth Gyffredinol a Llywodraethu** i:

- Glwb Cynfilwyr Ynysowen.
- Grŵp Cymunedol Pontsticill
- Cymdeithas Pensiwynwyr Dowlais
- Heartbeat '95
- Cynyrchiadau Ad Lib
- Papurau Siarad Merthyr Tudful
- Ymddiriedolaeth Datblygu Taf Bargoed
- Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful
- Canolfan Plentyn a Theulu y Drindod
- Grŵp Garddio Trelewis
- Gardd Gymunedol Brambles
- Cymdeithas Afiechyd Parkinson's – Grŵp Merthyr
- SNAP



Pentre Byd Eang

Cyfranogodd GGMT yn y ffeiriau cyllidol a drefnwyd gan Swyddfa Etholaeth yr AC a ChBS Merthyr Tudful.

Mae'r cymdeithasau canlynol wedi derbyn nawdd o ganlyniad i gefnogaeth:

- Merthyr Aloud,
- Celfyddydau Cymunedol Trelewis
- Clwb Pêl-droed Gellideg
- Ambiwlans St John, Ynysowen
- Cymdeithas Gymunedol Galon Pen
- Forever Young
- Grŵp Cymunedol Pontsticill
- Cynllun Gwarchod Cymdogaeth Troedyrhiw
- Prosiect Trafnidiaeth Gymunedol Ieuenctid Aberfan ac Ynysowen
- Cymorth i Gancr
- Accessible Caring Transport
- Canolfan Gymunedol Cilhaul
- Elite
- SNAP Cymru

Mae MAGNET yn bortffolio o 7 prosiect gwahanol a'i fwriad yw cysylltu â chymunedau sydd ar y cyrion er mwyn cryfhau eu llais a chael dylanwad ar wasanaethau cyhoeddus a pholisiau. Mae holl brosiectau'r portffolio wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol wrth adolygu a chreu y Strategaeth Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu newydd. Mae'r prosiectau'n allweddol i gyrraedd y mwyaf neilltuedig yn ein cymdeithas ac mae bod yn hyddysg mewn materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn hollbwysig.



Dyma rhai o ganlyniadau'r prosiect:

Y prosiect **Focal Point** yw'r bwysicaf wrth ddelio â materion mewnfudwyr yn Merthyr Tudful. Cyfranogodd y prosiect yn ymgynghoriadau Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru. Mae gan fyfyrwr meddygol gysylltiad â'r prosiect er mwyn ymchwilio i'r ymarferion gorau oddi fewn i **Wasanaethau Doctoriaid Teulu ac Unedau Achosion Brys** ar gyfer pobl nad sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae arweinyfr diwylliannol eisoes wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r bwriad nawr yw ei addasu ar gyfer darparwyr gwasanaethau eraill.

Mae'r prosiect **Bridges** wedi gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol er mwyn gweithredu'r **Aseiad ar Anghenion Tai Teithwyr a Sipsiwn**. Mae Bridges yn gweithredu oddi fewn i'r gymuned ac yn sicrhau bod eu barn yn cael eu ystyried.

Mae'r galw yn parhau i fod yn uchel am hyfforddiant LGBT trwy'r prosiect **Visible** sy'n cefnogi darparwyr gwasanaethau i gyflawni eu polisiau yn effeithiol.

Mae'r prosiect **Up and Coming** wedi llwyddo i recriwtio mwy o ohebwy'r ac mae'r pynciau sy'n cael eu harchwilio yn amrywio o wasanaethau sy'n ymdrin â hunan-niwed i leihad yn y niferoedd o weny'n. Mae'r gohebwy'r ifanc wedi gohebu am Pride Cymru a dangosiad o ffilm iechyd meddwl yn ymdrin â iechyd meddwl/cefnogaeth hunan-niwed mewn ysgolion.

Mae'r prosiect **Posib**, sy'n targedu teuluoedd a dynion oddi fewn i oed gweithio yng ngogledd Merthyr Tudful wedi datblygu dulliau creadigol o ddal sylw. Cafwyd sesiynau coffi a collage gyda mamau. Archwiliwyd beth yw bod yn fam a chafwyd cyfle i greu llun personol. Wedi llwyddiant "Photovoice", prosiect a welodd pobl ifanc yn tynnu lluniau ar y strydoedd er mwyn mynegi eu safbwyntiau am eu cymunedau, dechreuwyd ar "Photovoice 2".

Cynhaliodd y prosiect **Perthyn** sesiwn ymgynghorol gyda phobl ifanc, tenantiaid hŷn a swyddogion tai cymdeithasol er mwyn sefydlu polisiau ac adolygu gwasanaethau.

Mae'r prosiect **One Voice** (a rheolir gan GGMT) wedi dylanwadu ar nifer o fentrau sy'n galluogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus:

- Mynychodd gwirfoddolwyr sy'n dioddef o **nam ar eu golwg** ymgynghoriad yn ymwneud ag arddangosfeydd newydd Sain Ffagan. Gwnaethwyd oddeutu 40 o argymhellion.
- Bu cyfranogwyr y prosiect yn cydweithio â Menter Adfywio Gorsaf Drenau Merthyr Tudful lle cafwyd cyfle i fod yn rhan o'r broses gynllunio. Codwyd oddeutu 13 o bwyntiau a arweiniodd at newidiadau yn y cynllun a gwelliant i'r safle.
- Cafwyd trafodaethau gyda'r Tîm Anabledd Plant a CAMHS yn ymwneud â phrosesau diagnostig a datganiadau er mwyn archwilio **gwaith mwy cynhwysol gyda rhieni**.
- Cynhaliwyd **hyfforddiant ymwybyddiaeth o Awtistiaeth** i staff "Frankie and Benny's" mewn partneriaeth â staff NAS Merthyr Tudful. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnig i fusnesau eraill yn y parc hamdden.
- Mae'r prosiect wedi bod yn allweddol i weithredu cynllun **Cerdyn Oren** Merthyr Tudful a gymeradwyir gan Drenau Arriva a Stagecoach. Mae'r cynllun yn helpu pobl sy'n dioddef o ASD ac anhawsterau dysgu i deithio'n annibynnol.

Cynhaliwyd **digwyddiad arbennig** i arddangos yr hyn y mae MAGNET yn ei wneud yn mis Medi a mynychodd 45 o bobl y digwyddiad. Bu hyn yn gymorth i godi proffeil y prosiectau a'u llwyddiannau a chafwyd ymateb cadarnhaol.

Cefnogodd prosiect **Clwstwr y De, Cymunedau yn Gyntaf** y canlynol:

- Rock UK
- Canolfan Plentyn a Theulu y Drindod
- Lles Glowyr Bedlinog
- TACT (Ymddiriedolaeth Gymunedol Ardal Treharris)
- Ffrindiau Parc Taf Bargoed
- Clwb Meithrin Little Cubs ym Medlinog
- Cymdeithas Ddiwylliannol Merthyr Tudful

Yn ychwanegol, cwblhaodd 34 o gyfranogwyr gyrsiau **Hunan-gymorth, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Rheolaeth Straen**.

- Mae 12 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan yng nghynllun cefnogaeth i gyfoedion **Ysgol Uwchradd Afon Taf**.
- Bu 46 o gyfranogwyr yn rhan o gynllun iechyd meddwl a nododd 20 ohonynt eu bod yn teimlo'n **fwy cadarnhaol am eu hiechyd meddwl** a'u bod yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Clybiau Gwaith Cartref Cymunedau yn Gyntaf

- bu'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths AC yn ymweld â Ysgol Uwchradd Afon Taf yn mis Mehefin. Pwrpas ymweliad y Gweinidog oedd i gwrdd â staff a disgyblion sydd wedi bod yn rhan o Glybiau Gwaith Cartref Cymunedau'n Gyntaf oddi fewn i'r Ysgol. Mae'r Clybiau Gwaith Cartref wedi gweld gwelliant arwyddocaol yn y niferoedd o bobl ifanc a gafodd 5 Gradd A-C yn eu arholiadau TGAU ac mae'n tanlinellu'r bartneriaeth weithiol wych sydd yn Merthyr Tudful. Cododd canlyniadau TGAU Lefel 2, yn cynnwys graddau A* i C mewn Mathemateg a Saesneg o 39% i 51% ers canlyniadau y llynedd.



Dysgyblion Blwyddyn 10 Dylan a James gyda'r Gweinidog

• **Cronfa Galluogi Cymunedau**

Yn dilyn llwyddiannau'r Gronfa Gofal Canolraddol, gofynnwyd i GGMT weinyddu Cronfa Gofal Canolraddol o £66k ar ran partneriaid Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ledled Cwm Taf. Cytunodd panel aml-asiantaethol i gefnogi 12 o brosiectau newydd a oedd yn cynnwys:

- **Gwasanaeth Cyfeillio** i ddarparu cefnogaeth i bobl hŷn, ynysig, mewn galar.
- Cyflwyno **gyrsiau hyfforddiant** i leihau rhestrau aros gwasanaethau gofal mewn galar.
- Gerddi hygyrch mewn dau gartref preswyl.
- Datblygiad **Prosiect Memory Box** sy'n defnyddio deunyddiau lleol i ysgogi atgofion a sbarduno trafodaethau. Lleolir blychau mewn llyfrgelloedd / adnoddau llyfrgelloedd teithiol a gellir eu benthyg gan grwpiau.
- Positive Action Towards Change (PATCH) mewn perthynas â Parkinson trwy ddatblygu **sesiynau café cymdeithasol** lle y gall unigolion gwrdd ac adeiladu ei hunanhyder drwy ail gydio mewn bywyd cymunedol.
- Cyfleoedd cymdeithasol a ddatblygwyd gan bobl ifanc er budd **preswylwyr hŷn**. Cynhaliwyd te prynhawn/dawnsfeydd te, aromatherapi a sesiynau tyluno.
- Mae'r **Prosiect Gwybodaeth a Datblygu i Ofalwyr** yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr. Cynhyrchwyd a dosbarthwyd tair newyddlen eleni. Mae gan y prosiect safleoedd Facebook a Twitter lle y nodir gwybodaeth am ddigwyddiadau a chefnogaeth i ofalwyr ond hefyd ymgynghoriadau a allai ennyn eu diddordeb. Mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi cyfranogiad gofalwyr wrth ymgynghori ar **Strategaeth Gofalwyr Cwm Taf 2016 – 2019**. Golygodd hyn greu cynlluniau drafft ac adnabod cyfleoedd i gyfranogi a chasglu adborth a gwybodaeth.
- **Gwasanaethau Cynnal Gofalwyr** – Ar ddechrau 2015/2016 dyfarnodd panel Grantiau'r Gofalwyr 6 grant i 4 sefydliad i gynnig gwasanaethau cynnal gofalwyr yn y bwrdeistref sirol. Trefnwyd diwrnod arbennig gan y prosiect i hybu Hawliau Gofalwyr a hefyd i roi cyfle i 10 sefydliad i gwrdd â gofalwyr a chynnig gwybodaeth a chefnogaeth.



- **Gweithredu'r Ddeddf**

- **Gwasanaethau Cymdeithasol & Lles (SSWB)**

- Mae GGMT yn rhan allweddol o'r strwythur sy'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf SSWB ac ynghyd â chyd-weithwyr Interlink, sicrhau fod y sector yn cael ei gynrychioli ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth gan Gadeiryddiaeth Bwrdd Partneriaeth Ddeddf SSWB a'r Prif Swyddog ar y Bwrdd Gweithredol. Mae GGMT hefyd yn cael ei gynrychioli ar ffrydiau gwaith allweddol y trydydd sector hy comisiynu, gwybodaeth, cyngor a chymorth, asesiad anghenion y boblogaeth. Yn ychwanegol i hyn, gofynnwyd i'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol i **arwain un ffrwd** waith benodol yn ymwneud â gofynion adeiladu cymunedol.

- **Cyd-lynydd Gofal Sylfaenol Cymunedol**

- Mae hon yn rôl sy'n cynrychioli holl ardal Cwm Taf a chanolbwyntiwyd yn ystod y cyfnod hwn ar yr **ymgyrch ffliw**, gyda'r Cyd-lynydd yn datblygu model, oddi fewn i'r gymuned i chwalo unrhyw goelion. Bu'n llwyddiannus yn ennyn diddordeb aelodau'r gymuned yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio gyda aelodau'r gymuned gyda'r bwriad o wella dealltwriaeth o fuddiannau cadarnhaol brechiadau.



Sesiwn Chwalo goelion gyda Stay Young at Heart Medi 2015

- **Broceru y Trydydd Sector i Ofal Sylfaenol**

- cefnogwyd 18 sefydliad gan y Cyd-lynydd Gofal Sylfaenol Cymunedol a threfnwyd iddynt fynychu clinigau Doctoriaid Teulu ar 41 o achlysuron gwahanol.

- **Bwrdd Gwasanaeth Lleol / Bwrdd Cydweithiol Rhanbarthol / Cynllun Integredig Sengl**

- Mae GGMT yn parhau i fod yn aelod gweithredol o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful a Bwrdd Cydweithiol Rhanbarthol Cwm Taf. Mae GGMT hefyd yn cadeirio Grŵp Llywio Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful a'r Partneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion.



- **Compact rhwng Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru a'r Trydydd Sector.**

- Mae GGMT wedi arwain yn natblygiad y Cytundeb Partneriaethol hwn. Drafftwyd Compact a chynhaliwyd ymgynghoriad yn mis Gorffennaf. Yn dilyn hyn, diwygiwyd y drafft a chrewyd cynllun gweithredu a chylch gorchwyl. Lawnsiwyd y Compact yn llwyddiannus yn mis Hydref a gofynnodd y Gwasanaeth Tân ac Achub i fod yn rhan o'r Compact a chytunwyd ar hyn. Gofynnwyd am enwebiadau o'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio yn mis Ionawr. Mae'r gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu wedi dechrau ac mae arolwg rhanddeiliad ar droed i fwydo gwybodaeth i'r Cynllun Gweithredu.

- **Gwobr Crystal Trophy**

- - Ym mis Gorffennaf, cefnogodd GGMT ac Interlink fenter lechyd Cyhoeddus Cwm Taf. Cydlynwyd ymatebion, bod yn rhan o'r panel dethol aml-asiantaethol a chefnogwyd cynllunio a chynnal y seremoni gwobrwyo. Derbyniwyd 17 o geisiadau ac roedd y tri cyntaf wedi eu lleoli yn Merthyr Tudful:

- Gwobr Gyntaf:
Safer Merthyr Tydfil – Prosiect Cam-drin Domestig (£1500)
- Ail Wobr:
Cymdeithas Dai Merthyr Tudful – Prosiect Boxfit (£1000)
- Trydedd Wobr:
Cymrodoriaeth Gristnogol Almond Tree – Gwasanaeth Cwnsela (£750)



Datganiad Gweithgareddau Ariannol

(yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)
Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2016

	2016			2015
	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £	Cyfanswm £
Incwm				
Incwm o weithgareddau elusenol:				
Grantiau a chytundebau	151,786	1,292,623	1,444,409	1,420,544
Costau Rheoli	85,220	7,342	92,562	73,502
Incwm o weithgareddau masnachol eraill:				
Incwm rhent a llety	60,559	-	60,559	54,457
Ffôn a phost	9,128	-	9,128	10,271
Incwm hyfforddiant	1,900	-	1,900	1,470
Incwm buddsoddi	1,129	-	1,129	2,147
Incwm arall	1,231	8,044	9,275	15,813
Cyfanswm yr Incwm	310,953	1,308,009	1,618,962	1,578,204

Gwariant

Gwariant ar weithgareddau elusenol	298,218	1,322,302	1,620,520	1,581,821
Cyfanswm y Gwariant	298,218	1,322,302	1,620,520	1,581,821
Incwm Net/(Gwariant) ar gyfer y flwyddyn	12,735	(14,293)	(1,558)	(3,617)
Trosgwyddiadau rhwng cronfeydd	(7,003)	7,003	-	-
Symudiad Net mewn cronfeydd	5,732	(7,290)	(1,558)	(3,617)
Cyfanswm y cronfeydd	621,048	65,944	686,992	690,609
Cyfanswm y Cronfeydd wedi eu cario drosodd	626,780	58,654	685,434	686,992

Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol yn cynnwys enillion a cholledion y flwyddyn. Mae pob incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaol.

Hyd at 31 Mawrth 2016

	2016	2015
	£	£
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol sefydlog	329,788	356,914
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	393,271	94,655
Arian yn y banc ac arian parod	154,495	383,526
	547,766	478,181
Dyledion:		
Symiau fydd angen eu talu oddi fewn i'r flwyddyn	192,120	148,103
Asedau Cyfredol Net	355,646	330,078
Asedau Net	685,434	686,992
Cronfeydd		
Cronfeydd incwm anghyfngedig	626,780	621,048
Cronfeydd incwm cyfyngedig	58,654	65,944
Cyfanswm y Cronfeydd	685,434	686,992

Bwrdd ac Aelodau Staff



Bwrdd 2015-16

Enwau'r Cyfarwyddwyr

Brian Lewis – Cadeirydd
 Helen Thomas – Is-Cadeirydd
 Paul Gray – Trysoredd
 Nicola Mahoney
 Ceinwen Statter
 Maria Thomas
 Huw Williams
 Anne Roberts
 Laura Guard

Gwirfoddolwyr

Louise Patterson
 Helen Mahoney
 Kevin Eddy
 Sarah Gibbon
 Diane Sheppard
 Selina Kim Andrews
 Brian Williams
 Kay Powell

Aelodau'r Staff 2015/2016

Alison Harris	Swyddog y Trydydd Sector
Amy Jones	Cymunedau yn Gyntaf Swyddog Cynhwysiant Cymunedol
Bethan Evans	Cymunedau yn Gyntaf – Gweithiwr Alwedddol Cyswllt y Teulu
Bethan Morgan	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Perfformiad a Monitro
Carol van den Berg	Cydlynnydd Cymunedol CGC (hyd at Mai 2015)
Carol Hindley	Rheolwr Gweinyddu a Chyllid
Claire Williams	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Arweiniol Cymunedau Dysgu
Darcy White	Lleoliad Gwaith Clerigol (mis Mehefin- mis Tachwedd 2015) Cynorthwydd Clerigol Twf Swyddi (o fis Rhagfyr 2015)
Deanne Rebane	Cydlynnydd Cymunedol CGC
Elaine James	Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Gofalwyr (hyd at mis Gorfennaf 2015) Cydlynnydd Cymunedol CGC (o fis Gorffennaf 2015)
Frances Barry	Swyddog Gwirfoddoli/Gwirfoddoli Ieuentid
Hannah Mills	Cymunedau yn Gyntaf Swyddog Arweiniol Cymunedau Ffyniannus
Hilary Edwards	Dirprwy Prif Swyddog
Ian Davy	Prif Swyddog
John Scott	Hyfforddwr Lles Cymunedol – Gwirfoddoli (mis Mai-mis Hydref 2015)
Karen Foley	Swyddog Gwirfoddoli
Ken Long	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y De
Kendra Tarplee	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Cefnogi Teuleodd Cynradd (o fis Mehefin)
Laura Johnson	Swyddog Gweinyddu a Chyllid
Maria Abson	Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl ¹
Maria Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Swyddog Gweinyddu
Nia Williams	Swyddog Prosiect Un Llais (o fis Medi 2015)
Patrick McNally	Cymunedau yn Gyntaf Swyddog Cefnogi Teuluoedd Cynradd (hyd at fis Ebrill 2015)
Rachel Thomas	Cymunedau yn Gyntaf – Swyddog Arweiniol Cymunedau Mwy Iach
Rachel Wyatt	Swyddog Datblygu Ymglymiad Defnyddwyr Iechyd Meddwl ²
Ravi Vedi	Swyddog Datblygu Economaidd Cymunedol (hyd at fis Ebrill 2015)
Rebecca Meredith	Swyddog Prosiect Un Llais (hyd at fis Gorffennaf 2015)
Sally Richards	Rheolwr Prosiect MAGNET
Sharon Richards	Hwyluswr Ichechyd a Gofal Cymdeithasol/Rheolwr Prosiect CGC
Sian Musto	Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Gofalwyr (o fis Medi 2015)
Shawn Williams	Cynorthwydd Clerigol (hyd at fis Mai 2015)
Steve Morgan	Hyfforddwr Lles Cymunedol – Gwirfoddoli (hyd at Ebrill 2015)